

# **Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd) o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)**

Yr Adran Radioleg / Ysbyty  
Castell-nedd Port Talbot / Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 21 a 22 Ionawr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 17 Gorffennaf 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd profiad y claf .....	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	29
4.	Beth nesaf? .....	33
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio...	35
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	36
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	37
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	38

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) lle rhoddwyd rhybudd ar gyfer Ysbyty Castell-nedd Port Talbot sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 21 a 22 Ionawr 2020. Ymwelwyd â'r ardaloedd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Yr Adran Radioleg

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwch-swyddog Diagnostig Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (Rheoliadau 2017)
- Cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, o'r dystiolaeth a archwiliwyd gennym, roedd cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017 yn dda. Dangosodd trafodaethau â'r staff fod ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau yn unol â Rheoliadau 2017 hefyd yn dda, ar y cyfan.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a bod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd garedig, broffesiynol a pharchus.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017 ar gael ac yn gyfredol. Roedd y rhain yn helpu'r adran i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau fel y maent yn gymwys i radioleg.

Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda ac roedd sylwadau gan y staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan uwch-aelodau o'r staff.

Nodwyd gennym y gellid gwneud ymdrechion pellach i gyrraedd rhai o'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) ac i fodloni Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn llawn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran
- Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Gwnaeth uwch-aelodau o'r staff groesawu ein harolygiad a dangoswyd parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn darparu cyngor ar eu hiechyd a'u llesiant

- Sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr adran er mwyn helpu i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'
- Sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fel mater o drefn ynglŷn â phwy y dylent gysylltu â nhw os byddant yn cael unrhyw broblemau yn dilyn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Crëwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt, ar 1 Ebrill 2019 ar ôl i'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr symud o BIP Abertawe Bro Morgannwg i fwrdd iechyd newydd, sef BIP Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r bwrdd iechyd bellach yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 390,000 o bobl yn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae tri phrif ysbty yn yr ardal, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau, sef Ysbyty Treforys, Ysbyty Singleton ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

Mae adran radioleg Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys pedair ystafell pelydr-x gyffredinol, tair uned radiograffeg gyffredinol symudol a dwy uned fflworosgopeg braich-c symudol.

Cynhelir archwiliadau hefyd gan ddefnyddio mathau eraill o gyfarpar, gan gynnwys:

- Sganwyr Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT)
- Uned Fflworosgopeg Gyffredinol
- Unedau uwchsain a deintyddol
- Sganwyr Atseiniol Magnetig (MR)

Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys Radiograffwyr, Radiolegwyr Ymgynghorol ac Uwch Radiograffwyr Ymarfer.

Mae'r adran hefyd yn cael cymorth a chynghor gan Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a gaiff eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd.



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd yr ymatebion gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan staff yr adran radioleg.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a bod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd garedig, broffesiynol a pharchus.

Er bod anghenion cyfathrebu'r cleifion yn cael eu diwallu, nodwyd gennym y gellid gwneud gwelliannau er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r cleifion am argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg, amseroedd aros a'r weithdrefn gwyno.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr adran. Rhoddwyd holiaduron i'r cleifion a ymwelodd â'r adran yn ystod ein harolygiad hefyd. Derbyniwyd cyfanswm o 28 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion roi gradd am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'arlderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

*"Gwasanaeth rhagorol, staff gwych. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn dangos parch at bob un o'r cleifion"*

*"Roedd pawb yn barod i helpu ac yn rhoi tawelwch meddwl"*

*"Mae'r holl staff wedi bod yn barod iawn i helpu ac maen nhw'n gyfeillgar iawn ac yn hawdd mynd atynt"*

## Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn glir yn yr ardaloedd aros yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'n harolygiad, a oedd yn amlinellu'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â chael sgan pelydr-x. Fodd bynnag, nid oedd

llawer o wybodaeth am sut y gallai'r cleifion ofalu am eu hiechyd a'u llesiant cyffredinol eu hunain yn cael ei harddangos yn yr adran. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu gwybodaeth ychwanegol am iechyd a llesiant i gleifion yn yr adran, er enghraifft am bynciau megis rhoi'r gorau i smygu.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod mwy o wybodaeth yn darparu cyngor ar iechyd a llesiant cyffredinol ar gael i gleifion yn yr adran.

## Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais, sensitif a phroffesiynol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff, ac roedd pob un o'r cleifion ond un yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster eu hunain bob amser yn ystod apwyntiadau.

Ni wnaethom glywed unrhyw sgysiau sensitif yn yr adran yn ystod ein hymweliad. Dywedwyd wrthym fod ystafelloedd triniaeth neu ystafelloedd cyfarfod eraill yn yr adran yn cael eu defnyddio ar yr achlysuron hynny pan fydd y cleifion yn gofyn am sgysiau preifat. Dywedodd pob un o'r cleifion ond dau wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i neb arall glywed.

Pan fyddai cleifion â phroblemau symudedd yn dod i'r adran, dywedwyd wrthym y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal â'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin ag urddas drwy gydol eu hymweliad. Yn ystod ein harolygiad, dywedodd un o'r cleifion wrthym ei bod wedi rhoi gwybod i'r staff ei bod yn glawstroofobig, a bod y staff wedi gwneud trefniadau i helpu nad oeddent yn amharu ar ei phreifatrwydd na'i hurddas.

Roedd y brif ardal aros i gleifion, yn ogystal â'r is-ardaloedd aros, yn yr adran i'w gweld yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd nifer y seddi a oedd ar gael i'w weld yn addas ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn bresennol.

Roedd ystafelloedd newid ar gael ar gyfer y cleifion hynny roedd angen iddynt dynnu eu dillad cyn cael triniaeth. Roedd dwy fynedfa i'r ystafelloedd newid a oedd yn golygu, unwaith y byddai'r claf wedi gwisgo'r gwn, y gallai fynd yn syth i'r ystafell driniaeth yn lle gorfod mynd yn ôl i'r ardal aros.

Er na wnaethom arsylwi ar gleifion yn cael eu trin, gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gyfeillgar. Roedd drysau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cau pan oedd triniaethau neu ymgynghoriadau'n mynd rhagddynt.

### Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael ar ffurf taflenni ac yn cael ei harddangos yn yr adran. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid oedd llawer o wybodaeth o'r fath, a dim ond ychydig o bynciau a oedd dan sylw.

Roedd poster wedi'i arddangos yn yr ardaloedd aros yn rhoi manylion i'r cleifion am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael archwiliad pelydr-x. Roedd y poster hwn wedi cael ei ddatblygu gan un o'r Arbenigwyr Ffiseg Feddygol. Dywedodd pob un o'r cleifion ond un wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael gwybodaeth glir i'w helpu i ddeall manteision a risgiau eu harchwiliad.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn perthynas â phenderfyniadau am eu triniaeth.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt hwy eu hunain ar ôl eu harchwiliad. Fodd bynnag, dywedodd traean o'r cleifion nad oeddent wedi cael gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor ar unrhyw ôl-ffeithiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw archwiliad neu driniaeth a gawsant.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fel mater o drefn, sy'n eu cynghori ynglŷn â phwy y dylent gysylltu â nhw os byddant yn cael unrhyw broblemau yn dilyn eu harchwiliad / triniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'gymharol hawdd' dod o hyd i'r adran ar ôl iddynt gyrraedd yr ysbyty.

Dywedodd y staff sy'n gweithio yn yr adran nad oedd unrhyw ddolen sain wedi'i gosod yn yr adran i helpu pobl sy'n gwisgo cymhorthion clyw i gyfathrebu â'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu gwneud trefniadau os rhoddir gwybod iddynt ymlaen llaw. Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael mewn Braille yn yr adran chwaith, ar gyfer cleifion â nam ar eu golwg. Unwaith eto,

dywedwyd wrthym nad oedd y math hwn o wybodaeth ar gael yn yr adran fel mater o drefn, ond y byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar gais.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod 'bob amser' yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith. Hefyd, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

Roedd y mwyafrif o'r wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ond, fel y nodwyd uchod, nid oedd llawer o wybodaeth yn yr adran. Dywedwyd wrthym fod rhai o'r aelodau o staff a oedd yn gweithio yn yr adran yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg ar unwaith yn ardaloedd cyhoeddus yr adran bod y cleifion yn gallu siarad â'r staff yn Gymraeg pe dymument.

Gellid gwneud mwy i dynnu sylw at y ffaith bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr adran, er mwyn helpu i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'<sup>1</sup>

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i dynnu sylw at y ffaith bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr adran, er mwyn helpu i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

### **Gofal amserol**

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn ei chael hi'n "hawdd iawn" neu'n "eithaf hawdd" cael apwyntiad yn yr adran.

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion eu bod wedi aros llai na 15 munud i gael eu harchwiliad ar ôl cyrraedd yr adran.

Nid oedd unrhyw ddull ar waith i hysbysu'r cleifion am yr amser aros presennol cyn cael eu gweld, a nododd ymatebion y mwyafrif o'r cleifion i'r holiadur na

---

<sup>1</sup> Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg

chawsant wybod wrth gyrraedd pa mor hir y byddent yn debygol o orfod aros cyn cael eu harchwiliad neu driniaeth.

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael eu hysbysu wrth gyrraedd ar yr adegau hynny pan fyddent o bosibl yn wynebu cyfnod aros sylweddol yn ystod cyfnodau prysurach. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth fel rhan o'n harolygiad sy'n awgrymu bod y cleifion yn aros am gyfnodau sylweddol o amser i gael eu gweld. Fodd bynnag, o ystyried yr adborth a gawsom gan y cleifion, dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd eraill o roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i hysbysu'r cleifion sy'n ymweld â'r adran am amseroedd aros presennol mewn ffordd well.

## Gofal Unigol

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gweithdrefn ar waith gan y bwrdd iechyd ar gyfer ymateb i unrhyw bryderon a geir gan gleifion mewn perthynas â'r gwasanaethau a gânt. Roedd y weithdrefn yn unol â Gweithdrefn Gwyno'r GIG i Gymru gyfan, sef Gweithio i Wella<sup>2</sup>.

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r broses pryderon, a rhoddwyd gwybod i ni y byddai tîm Gweithio i Wella'r bwrdd iechyd yn nodi unrhyw gwynion ffurfiol a gafwyd gan yr adran.

Dywedodd y staff wrthym, pan fyddai pryderon yn cael eu codi gan y cleifion ar lafar, y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud, lle y bo'n bosibl, i siarad â'r claf ar unwaith i geisio helpu i ddatrys unrhyw faterion neu bryderon yn gyflym ac yn

---

<sup>2</sup> 'Gweithio i Wella ' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru.

effeithlon. Lle nad oedd hyn yn bosibl, dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael eu cyfeirio at y broses pryderon.

Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos yn yr adran mewn perthynas â phroses cwynion Gweithio i Wella. Hefyd, dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaeth roeddent wedi'i gael. O ystyried yr adborth hwn, dylid gwneud ymdrech i hysbysu'r cleifion yn well am weithdrefn gwyno'r bwrdd iechyd.

Roedd poster 'Dewch i Siarad' yn cael ei arddangos yn y brif ardal aros yn amlinellu sut y gallai ymwelwyr â'r adran roi adborth i'r staff. Roedd cod QR ar y poster yn galluogi unigolion i gael y ffurflen adborth berthnasol drwy sganio'r cod â ffôn symudol. Roedd y poster hefyd yn nodi manylion y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC).<sup>3</sup> Gall y CIC gynnig cymorth a chyngor i unrhyw unigolion sydd am godi pryderon am eu triniaeth yn y GIG.

Roedd poster mawr yng nghoridor y brif fynedfa i'r adran yn dwyn yr enw 'When you needed us, how did we do'. Roedd y poster yn rhoi manylion am y ffyrdd y gall cleifion ac ymwelwyr eraill roi adborth ar eu profiadau. Ymysg y ffyrdd o roi adborth roedd cysylltu â rheolwr yr adran, cwblhau cerdyn adborth neu gwblhau arolwg ar-lein. Roedd uwch-aelodau o'r staff yn barod i dderbyn ein hawgrym y byddai'n well rhoi'r poster hwn a'r cardiau adborth yn yr ardal aros, er mwyn sicrhau eu bod yn fwy amlwg i'r cleifion ac annog mwy o ymwelwyr â'r adran i ymateb.

Rhoddyd ffolder adborth i'r tîm edrych arno yn ystod ein harolygiad. Roedd y ffolder hwn yn cynnwys dadansoddiad a wnaed gan y staff o sylwadau a gafwyd gan ymwelwyr â'r adran am eu barn a'u profiadau. Yn ystod trafodaethau â'r uwch-reolwyr, awgrymwyd y byddai'n fuddiol pe bai'r wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn ardaloedd aros yr adran. Unwaith eto, gallai hyn annog y cleifion ac ymwelwyr eraill â'r adran i roi mwy o adborth ar y gwasanaeth.

---

<sup>3</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/tudalen/71621>

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gwbl ymwybodol o'u hawl i godi pryderon am eu gofal neu driniaeth yn y GIG.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, o'r dystiolaeth a oedd ar gael a thrafodaethau â'r staff, gwelsom fod cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017 yn dda.

Roedd ymwybyddiaeth y staff o'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau yn dda iawn ar y cyfan.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan Rheoliadau 2017 ar gael ac yn gyfredol. Roedd y rhain yn helpu'r adran i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau fel y maent yn gymwys i radioleg.

Roedd yr adran yn lân ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch y staff, y cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Tynnwyd sylw at rai meysydd i'w gwella, gan gynnwys cofnodi dosau'r cleifion mewn modd cyson a chyfiawnhau dod â chleifion i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

## **Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)**

### **Dyletswyddau cyflogwr**

#### *Adnabod cleifion*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol i'r staff ei dilyn er mwyn adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Y nod oedd sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir ag ymbelydredd ïoneiddio yn unol â gofynion Rheoliadau 2017.



Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir yr aelodau hynny o'r staff sy'n gyfrifol am adnabod cleifion yn gywir. Roedd disgwyl i'r staff ofyn i gleifion gadarnhau eu henw, eu dyddiad geni a'u cyfeiriad. Roedd hyn yn unol â chanllawiau presennol y DU<sup>4</sup>.

Roedd y weithdrefn yn disgrifio'r camau amgen y dylai'r staff eu cymryd pe na bai'r cleifion yn gallu cadarnhau eu manylion ar lafar eu hunain, gan hyrwyddo diogelwch y cleifion ymhellach. Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn i gadarnhau manylion adnabod cleifion pediatrig.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir i adnabod cleifion. Hefyd, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur wrthym fod y staff wedi gofyn iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn dechrau eu harchwiliad.

#### *Unigolion sy'n gallu beichiogi (holi am feichiogrwydd)*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn i'w dilyn mewn perthynas â gofyn i unigolion a oedd yn yr ystod oedran i feichiogi a oeddent neu a allent fod yn feichiog cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio. Y nod oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson.

Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir y staff hynny a oedd yn gyfrifol am wneud yr ymholiadau perthnasol ac roedd yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn, yn dibynnu ar ymatebion yr unigolyn. Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid eu holi ynglŷn â beichiogrwydd yn unol â chanllawiau'r DU<sup>5</sup>.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn ardal aros yr adran ac ystafelloedd newid y cleifion yn cynghori unigolion i roi gwybod i'r staff os oeddent yn feichiog, neu'n meddwl y gallent fod yn feichiog. Mae hyn yn bwysig er mwyn lleihau unrhyw niwed posibl i blentyn yn y groth o ganlyniad i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio.

---

<sup>4</sup> Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017.

<sup>5</sup> Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â holi am feichiogrwydd, a oedd yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr a ddisgrifiwyd uchod. Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu hap-sampl o gofnodion y cleifion. Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gwiriadau perthnasol wedi cael eu cynnal a'u cofnodi gan y staff.

Ar yr achlysuron hynny pan oedd gofalwyr a chysurwyr yn bresennol, nid oeddent yn cael ymuno â'r claf yn yr ystafell pelydr-x os oeddent yn feichiog. Yn ystod trafodaethau â'r uwch-reolwyr, awgrymwyd y dylid ychwanegu cwestiynau am feichiogrwydd i'r ffurflen gydsynio i ofalwyr a chysurwyr.

#### *Cysylltiadau â ddelweddu anfeddygol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith a oedd yn nodi'r meini prawf ar gyfer unigolion sy'n dod i gysylltiad â delweddu anfeddygol<sup>6</sup>.

#### *Canllawiau atgyfeirio*

Roedd gan y cyflogwr ganllawiau atgyfeirio sefydledig ar waith. Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod y canllawiau hyn ar gael i'r rhai sydd â hawl i atgyfeirio o dan Rheoliadau 2017. Rhoddwyd gwybod i ni fod canllawiau atgyfeirio clinigol (iRefer) ar gael i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol drwy'r Fewnrwyd. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd fod taflen am gyfrifoldebau atgyfeirio ar gael.

Nodwyd un mater mewn perthynas â'r broses o geisio atgyfeiriadau ar gyfer achosion theatr y mae angen delweddu fflworosgopeg symudol arnynt. Rhoddwyd gwybod i ni fod y llawfeddyg ar hyn o bryd yn darparu gwybodaeth ar lafar er mwyn gwneud cais am ddelweddu ar gyfer achosion llawfeddygol. Nid oedd unrhyw ffurflen atgyfeirio ffurfiol yn cael ei chyflwyno cyn i'r claf ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Felly, nid oedd modd dod o hyd i dystiolaeth am y broses o gyfiawnhau ac awdurdodi'r cysylltiadau hyn ag ymbelydredd ïoneiddio gan yr ymarferydd. Trafodwyd y broses hon ag uwch-aelodau o'r staff fel rhan o'n harolygiad, a chytunwyd bod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y broses yn cydymffurfio â Rheoliadau 2017.

---

<sup>6</sup> Mae unigolion sy'n dod i gysylltiad â delweddu anfeddygol yn cynnwys asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnfudo a dibenion yswiriant. Gall y rhain hefyd gael eu cyflawni i nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff.

Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o'r atgyfeiriadau a gaiff eu gwneud i'r adran at ddiben delweddu diagnostig ar ffurf bapur. Ar ôl cael eu derbyn, caiff atgyfeiriadau eu cofrestru ar system electronig RadIS<sup>7</sup>. Yn ystod trafodaethau â'r uwch-reolwyr, awgrymwyd y gellid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y gweithdrefnau atgyfeirio er mwyn amlinellu'r camau i'w cymryd os na fydd yr atgyfeiriad a gafwyd yn bodloni'r meini prawf perthnasol a/neu os bydd y sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad yn ceisio gwneud atgyfeiriad sydd y tu hwnt i'w gwmpas ymarfer y cytunwyd arno.

Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu hap-sampl o ddogfennau atgyfeirio'r cleifion. At ei gilydd, roedd y ffurflenni atgyfeirio yn cael eu cwblhau i safon dda. Roedd diwyg y ffurflenni atgyfeirio a adolygwyd yn glir, ac roedd y wybodaeth glinigol a ddarparwyd yn unol â'r canllawiau atgyfeirio.

Roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau yn cynnwys digon o fanylion clinigol ac wedi'u llofnodi gan ymarferydd â'r hawl briodol i wneud hynny, yn cadarnhau'r cyfiawnhad<sup>8</sup>. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dwy o'r ffurflenni atgyfeirio ar gyfer sgan CT wedi cael eu llofnodi'n briodol gan yr ymarferydd i gadarnhau cyfiawnhad. Mae'r mater hwn hefyd wedi'i nodi o dan yr is-bennawd cyfiawnhad yn nes ymlaen yn yr adran hon.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau y caiff atgyfeiriadau ar gyfer achosion theatr y mae angen delweddu fflworosgopeg symudol arnynt eu cwblhau cyn i'r claf ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio yn unol â Rheoliadau 2017.

---

<sup>7</sup> Mae System Gwybodaeth Radioleg Cymru Gyfan (WRIS), RadIS, sy'n ei gwneud yn bosibl i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gofal cleifion di-dor ym mhob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru ar gael i bob bwrdd iechyd yng Nghymru.

<sup>8</sup> Cyfiawnhau yw'r broses o bwysu a mesur manteision disgwylidig cysylltiad yn erbyn y niwed y gallai'r dos ymbelydredd cysylltiedig ei achosi.

## Dyletswyddau'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r gweithredwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi'r gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio a chyflawni archwiliadau radioleg ar gyfer cleifion, a gwahanol rolau'r gweithwyr proffesiynol hynny. Roedd gweithdrefn y cyflogwr o ran sut i roi Rheoliadau 2017 ar waith yn yr adran yn nodi pwy, yn ôl grŵp staff, all fod yn atgyfeirwyr<sup>9</sup>, yn ymarferwyr<sup>10</sup> ac yn weithredwyr<sup>11</sup> (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Ceir gwybodaeth ym Mholisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio y cyflogwr am y gofynion cymhwysedd / hyfforddi sylfaenol ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd. Mae hawl yn gysylltiedig â chwblhau'r gwiriadau hyfforddi a chymhwysedd perthnasol ar gyfer cyfarpar ac archwiliadau penodol.

Mae'r polisi yn nodi bod y Cyfarwyddwr Clinigol yn gyfrifol am awdurdodi'r broses o roi hawl i ymarferwyr a gweithredwyr newydd â chymhwyster meddygol. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw bod ganddynt gopiâu o'r dogfennau yn nodi cwrpas eu hawl o dan Reoliadau 2017.

Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau fel deiliaid dyletswydd perthnasol a chwmpas eu hawl o dan Reoliadau 2017.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cael gafael ar fersiynau electronig cyfredol o'r polisiâu a'r gweithdrefnau drwy yriant yr adran a rennir ar-lein. Dywedwyd wrthym hefyd fod copiâu caled o ddogfennau ar gael i'w hadolygu yn yr adran.

---

<sup>9</sup> O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer cysylltiad meddygol.

<sup>10</sup> O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am gysylltiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau cysylltiadau meddygol.

<sup>11</sup> O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), mae gweithredwr yn unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gysylltiad meddygol.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff y trefniadau ar gyfer hysbysu'r staff am unrhyw newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau yn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfodydd staff perthnasol a'r sgrymiau staff wythnosol a gynhelir yn yr adran. Ar ôl cael unrhyw wybodaeth newydd, mae'n rhaid i'r staff adolygu'r ddogfen a ddiwygiwyd a chadarnhau yn ysgrifenedig eu bod wedi gwneud hynny.

Mae contract ar waith rhwng pob bwrdd iechyd yng Nghymru i Everlight Radiology<sup>12</sup> ddarparu gwasanaeth adroddiadau radioleg sy'n cynnwys, mewn rhai achosion, cyfiawnhad y tu allan i oriau o archwiliadau penodedig a gwerthusiadau clinigol cysylltiedig. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i ni gan yr uwch-reolwyr, mewn perthynas â BIP Bae Abertawe, fod cofrestrwyr mewn radioleg sy'n gweithio yn Ysbyty Singleton yn gweithredu fel ymarferwyr i gyfiawnhau unrhyw gysylltiadau ag ymbelydredd ïoneiddio y tu allan i oriau. Hawl grŵp sydd gan Everlight fel gweithredwyr, a dim ond gwerthusiadau clinigol a gynhelir ganddynt. Roedd gwybodaeth ar gael am radiolegwyr Everlight a'u rhifau Cyngor Meddygol Cyffredinol cysylltiedig.

### Cyfiawnhau Cysylltiadau Meddygol Unigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol. Roedd gan yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'r broses gyfiawnhau.

Roedd cyfiawnhad dros gysylltiadau meddygol unigol yn cael ei gofnodi ar ffurflenni cais yr adran radioleg, gan gynnwys y dyddiad a llofnod yr ymarferydd. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu sampl o ddogfennau atgyfeirio'r adran radioleg. Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith nad oedd dwy o'r dogfennau atgyfeirio hyn wedi cael eu llofnodi'n briodol gan yr ymarferydd â hawl. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn glir pwy oedd wedi awdurdodi'r cysylltiad. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr aelodau perthnasol o'r staff yn cael eu hatgoffa am bwysigrwydd llofnodi dogfennau er mwyn sicrhau bod enw y gellir ei adnabod wedi'i gofnodi.

---

<sup>12</sup> Mae Everlight Radiology yn ddarparwr gwasanaethau teleradiolog mawr wedi'i leoli yn Llundain ac Awstralia.

O ystyried y diffiniad o ofalwyr a chysurwyr yn Rheoliadau 2017, cafwyd trafodaethau â'r uwch-reolwyr am yr agwedd hon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gweithdrefn ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas â chysylltiad gofalwyr a chysurwyr ag ymbelydredd ïoneiddio. Dywedwyd wrthym y byddai'r ymarferydd ar gyfer cysylltiad y claf hefyd yn gweithredu fel yr ymarferydd ar gyfer cysylltiad y gofalwr neu'r cysurwr. Wrth gyfiawnhau cysylltiad y gofalwr neu'r cysurwr ag ymbelydredd ïoneiddio, rhaid i'r ymarferydd hefyd fod yn fodlon bod gwir angen cymorth agos gan unigolyn arall ar y claf er mwyn i'r archwiliad allu mynd rhagddo'n llwyddiannus.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod pob cysylltiad meddygol ac anfeddygol wedi'i gyfiawnhau ac y gellir nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau pob cysylltiad.

### Optimeiddio

Roedd trefniadau ar waith i optimeiddio<sup>13</sup> cysylltiadau ag ymbelydredd ïoneiddio. Er enghraifft, mae'r bwrdd iechyd wedi sefydlu Tîm Optimeiddio Delweddau aml-ddisgyblaethol ar gyfer sganiau CT. Mae'r tîm hwn, a arweinir gan Arbenigwr Ffiseg Feddygol, yn canolbwyntio ar geisio lleihau maint ac amrywiad dosau cleifion, meithrin protocolau delweddu y cytunir arnynt a rhannu arferion gorau ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Roedd y tîm yn canolbwyntio ar sganiau CT yn unig ar hyn o bryd, ond rhoddwyd gwybod i ni gan yr uwch-reolwyr fod trafodaethau yn mynd rhagddynt er mwyn ceisio ehangu cylch gwaith y tîm i gynnwys moddau radiograffeg eraill.

Ar gyfer cleifion pediatrig, roedd tystiolaeth o'r trefniadau a'r gosodiadau cysylltiad penodol a oedd yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod cysylltiadau plant ag ymbelydredd ïoneiddio yn cael eu hoptimeiddio.

---

<sup>13</sup> Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

### *Lefelau cyfeirio diagnostig*

Roedd prosesau ar waith ar gyfer pennu, gweithredu ac adolygu Lefelau Cyfeirio Diagnostig. Yn ystod ein taith o amgylch yr adran, nodwyd gennym fod Lefelau Cyfeirio Diagnostig wedi'u harddangos yn glir yn yr holl ardaloedd yr ymwelwyd â nhw.

Roedd Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol wedi cael eu sefydlu ar gyfer yr holl archwiliadau safonol a gynhelir. Roedd y mwyafrif o'r Lefelau Cyfeirio Diagnostig yn is na'r lefel genedlaethol neu'n gyfartal â hi. Fodd bynnag, roedd rhai archwiliadau sy'n defnyddio bariwm lle roedd lefelau'r dosau yn uwch na'r lefel genedlaethol. Rhoddwyd gwybod i ni fod archwiliadau yn mynd rhagddynt i bennu Lefelau Cyfeirio Diagnostig lleol ar gyfer yr archwiliadau fflworosgopeg hyn a fyddai'n adlewyrchu demograffeg cleifion lleol.

Roedd trefniadau ar waith i alluogi'r staff i gofnodi unrhyw ddsau sy'n uwch na lefelau lleol/cenedlaethol ar gyfer cleifion safonol. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei monitro'n fisol gan arweinwyr moddau radiograffeg er mwyn penderfynu a fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach / uwchgyfeirio.

Roedd trefniadau archwilio ar waith i fonitro'r gwaith o fewnbynnu data am ddsau cleifion i RadIS gan y staff. Rhoddwyd gwybod i ni fod gwelliant sylweddol wedi cael ei wneud o ran cwblhau'r gwaith o gofnodi dosau gan y staff. Fodd bynnag, fel rhan o'n hadolygiad o wybodaeth, gwelsom nifer o enghreifftiau lle roedd y staff wedi cofnodi'r dos ar y ffurflen atgyfeirio yn unig, ac nad oeddent wedi cofnodi'r wybodaeth â llaw yn RadIS lle roedd angen, yn unol â'r weithdrefn berthnasol. Os na chaiff dosau eu cofnodi yn RadIS fel mater o drefn, bydd hyn yn effeithio ar gywirdeb unrhyw archwiliadau dilynol o ddsau a gynhelir.

#### *Yr hyn sydd angen ei wella*

Rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod y staff yn cofnodi maint dosau'r cleifion yn RadIS yn unol â gweithdrefn y cyflogwr sydd ar waith.

### *Gwerthuso clinigol*

Roedd gweithdrefn ar waith gan y cyflogwr a oedd yn disgrifio'r broses gwerthuso clinigol. Dywedwyd wrthym fod yr holl archwiliadau a chysylltiadau lle y defnyddir ymbelydredd ïoneiddio yn cynnwys gwerthusiad clinigol gan aelod o'r staff â'r hawl briodol.

Fel rhan o'n hadolygiad o'r hap-sampl o gofnodion y cleifion, gwelsom fod yr holl gofnodion yn dangos bod gwerthusiad clinigol wedi cael ei gwblhau o fewn 10 diwrnod i gwblhau'r driniaeth.

### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Roedd gan y cyflogwr restr gyfredol o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr adran radioleg. Roedd y rhestr yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017.

Roedd rhaglen Sicrhau Ansawdd ar waith i sicrhau y caiff yr holl gyfarpar ei wirio'n rheolaidd. Roedd cronfa ddata yn cael ei chynnal a oedd yn cynnwys manylion am yr holl gyfarpar yn yr adran a'r dyddiadau Sicrhau Ansawdd gofynnol.

Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff yn yr adran wedi cael hyfforddiant gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol er mwyn eu galluogi i gynnal gwaith Sicrhau Ansawdd ar y cyfarpar. Roedd llawlyfr Sicrhau Ansawdd ar gael hefyd, a ddarparwyd gan un o'r Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

## **Gofal diogel**

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da, ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch y staff, cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Roedd yr adran ar y llawr gwaelod. Roedd mynediad gwastad ym mhob rhan o'r adran, gyda drysau dwbl a choridorau mawr, a oedd yn galluogi cleifion ag anawsterau symudedd i ddod i mewn i'r adran a'i gadael yn ddiogel.

Roedd yr adran yn lân, ac nid oedd unrhyw rwystrau na pheryglon baglu amlwg ar y cyfan. Roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith er mwyn rhwystro ac atal unrhyw unigolion heb awdurdod rhag mynd i mewn i ardaloedd lle roedd cyfarpar radioleg yn cael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

### **Atal a rheoli heintiau**

Roedd trefniadau ar waith i atal a rheoli heintiau a gwneud gwaith dihalogi yn effeithiol.

Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da iawn, ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch y staff, y cleifion ac ymwelwyr â'r



adran. Ar adeg ein harolygiad, roedd pob rhan o'r adran yn ymddangos yn lân ac yn daclus ar y cyfan.

Dyweddodd yr uwch-reolwyr wrthym fod amserlenni glanhau dyddiol ar gyfer pob rhan o'r adran gan gynnwys pob un o'r ystafelloedd archwilio. Roedd prosesau glanhau a dihalogi ar waith ar gyfer pob un o'r gwahanol ddarnau o gyfarpar yn yr adran.

Ar yr achlysuron hynny pan roddir gwybod i'r adran y bydd claf y gwyddys bod ganddo haint yn dod i'r adran, dywedwyd wrthym fod trefniadau'n cael eu gwneud i weld y claf ar ddiwedd y dydd lle y bo'n bosibl, er mwyn sicrhau bod digon o amser i lanhau'r ystafell yn briodol. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd fod siartiau llif prosesau ar gael ym mhob ystafell yn amlinellu'r broses y dylai'r staff ei dilyn ar ôl trin cleifion heintus.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod arweinydd rheoli heintiau yn gweithio yn yr ysbyty, a bod yr arweinwyr moddau radiograffeg hefyd yn cynnal gwiriadau ar hap o lendid ystafelloedd yn yr adran.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar reoli heintiau. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod cofnod yn cael ei gynnal sy'n amlinellu cydymffurfiaeth â hyfforddiant. Dywedodd aelodau o staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad wrthym eu bod i gyd wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn meddu ar wybodaeth dda am ei gyfrifoldebau mewn perthynas â rheol heintiau yn yr adran.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar diogelu personol megis menig untro ar gael iddynt bob amser. Mae defnyddio cyfarpar diogelu personol, ynghyd â phrosesau golchi dwylo effeithiol, yn bwysig er mwyn lleihau achosion o heintio.

Ni thynnwyd sylw at unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid yr adran. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod amgylchedd yr adran yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân'.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Dangosodd trafodaethau â'r staff yn yr adran ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau diogelu cyfredol sydd ar waith. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym hefyd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein i'w helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu perthnasol.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod arweinydd diogelu yn yr ysbyty, ac roedd posteri yn cael eu harddangos yn yr adran i sicrhau bod y staff yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai unrhyw bryderon ganddynt.

## **Gofal effeithiol**

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

#### *Archwilio clinigol*

Darparwyd gwybodaeth i ddangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau 2017 mewn perthynas ag archwilio clinigol. Darparwyd tystiolaeth o'r archwiliadau a gwblhawyd eisoes eleni, yn ogystal â'r amserlen archwiliadau ar gyfer gweddi y flwyddyn.

Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gwersi i'w dysgu yn cael eu nodi drwy'r rhaglen archwilio a bod ailarchwiliadau yn cael eu trefnu lle bo angen.

Roedd gweithdrefn ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas ag archwiliadau clinigol. Yn ystod trafodaethau â'r uwch-reolwyr, awgrymwyd y gellid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y weithdrefn hon gan roi mwy o fanylder, gan gynnwys amserlenni ar gyfer archwiliadau, pwy fydd yn gwneud y gwaith penodol a sut y caiff deilliannau dysgu eu cyfleu.

#### *Cyngor arbenigol*

Roedd pedwar Arbenigwr Ffiseg Feddygol wedi'u cyflogi gan y BIP. Roedd pob un o'r Arbenigwyr Ffiseg Feddygol wedi'u rhestru ar y rhestr gymeradwy ar gyfer RPA 2000, sef y corff ardystio ar gyfer Arbenigwyr Ffiseg Feddygol. Roedd tystiolaeth o'r llythyrau penodi gan y Prif Swyddog Gweithredol ar gael hefyd.

Yn ystod trafodaethau â'r uwch-reolwyr, cawsom wybod bod cynlluniau i ddatblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer Arbenigwyr Ffiseg Feddygol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â'r llwyth gwaith angenrheidiol.

Cadarnhawyd gennym fod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn rhoi cymorth a chynghori i staff yr adran ar weithdrefnau newydd a rhai presennol. Roedd rôl yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol hefyd yn cynnwys cynnal archwiliadau perthnasol, pennu a monitro Lefelau Cyfeirio Diagnostig Lleol a chynghori staff ar roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag ymbelydredd.

Dywedodd yr uwch-aelodau o staff wrthym hefyd eu bod yn gallu cysylltu ag Arbenigwr Ffiseg Feddygol i gael cyngor pan oedd angen gwneud hynny ar sail ad hoc.

## *Ymchwil feddygol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn sefydledig ar waith mewn perthynas â chysylltiadau Ymchwil Feddygol. Fodd bynnag, cawsom wybod gan yr uwch-reolwyr nad oedd unrhyw ymchwil sy'n defnyddio cysylltiadau meddygol ag ymbelydredd ïoneiddio yn cael ei chynnal yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Disgrifiodd y staff systemau rheoli gwybodaeth yr adran a'u dangos i ni. Roedd y systemau sydd ar waith yn golygu y gellir cofnodi gwybodaeth a manylion perthnasol am gleifion mewn perthynas â thriniaethau diagnostig ac ymyriadol a gyflawnwyd ac y gall y staff gael gafael arnynt yn hawdd.

### **Cadw cofnodion**

Cawsom olwg ar hap-sampl o gofnodion y cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion a welsom yn cynnwys manylion priodol wedi'u cwblhau gan yr aelodau hynny o staff a oedd yn bresennol ar adeg y cysylltiad. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod yn yr adroddiad hwn, nodwyd problemau gennym mewn perthynas â'r dystiolaeth a gofnodwyd i gadarnhau cyfiawnhad o gysylltiadau ar gyfer dau o'r cofnodion a welwyd gennym.

## **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth**

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal*

Cafodd strwythur rheoli â llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ei ddisgrifio a'i arddangos.

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig a threfniadau rheoli ar waith i helpu'r adran radiotherapi i gydymffurfio â Rheoliadau 2017.

Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda, ac roedd sylwadau gan y staff yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o'r staff yn yr adran. Roedd yn amlwg o'n harolygiad bod cydberthynas dda rhwng staff yr adran a'r uwch-reolwyr.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod nifer o swyddi gwag yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr adran yn gallu bodloni'r galw am ei wasanaethau.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Roedd strwythur rheoli ar waith, gyda llinellau adrodd clir, a gafodd ei ddisgrifio a'i ddangos. Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod yr adran yn gweithredu'n effeithiol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu cefnogi. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr uwch-reolwyr yn yr adran yn amlwg iawn ac yn hawdd mynd atynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn fodlon ar lefel ymgysylltu ac arwain yr uwch-reolwyr.

Roedd sgrymiau wythnosol yn cael eu cynnal yn yr adran, dan arweiniad un o'r uwch-reolwyr. Nod y trafodaethau hyn yw rhoi i'r staff y wybodaeth ddiweddaraf neu wybodaeth am faterion y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt.

Sicrhawyd bod nodiadau pwysig o'r trafodaethau sgrym hefyd ar gael i unrhyw aelod o'r staff nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

Ar ddiwrnodau ein harolygiad, sicrhaodd y staff uwch-reoli eu bod ar gael, a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad.

Cyn yr arolygiad, gofynnodd AGIC i uwch aelodau o'r staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Y nod oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr. Lle roedd angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurder o ran yr ymatebion yn yr hunanasesiad, cawsom hyn yn ddi-oed gan uwch-aelodau o'r staff.

## **Dyletswyddau'r cyflogwr**

### *Rhoi hawl*

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd system addas ar waith gan y cyflogwr i nodi'r gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol a oedd yn gysylltiedig ag atgyfeirio cleifion a chynnal archwiliadau radioleg, a rolau'r gweithwyr proffesiynol hynny, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017. Roedd polisi'r cyflogwr ar gyfer rhoi Rheoliadau 2017 ar waith yn yr adran yn nodi personél, yn ôl grŵp o staff (deiliaid dyletswydd).

### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Prif Swyddog Gweithredol y bwrdd iechyd oedd wedi'i ddynodi'n gyflogwr. Cawsom wybod yn ystod trafodaethau â'r staff uwch-reoli, er bod y Prif Swyddog Gweithredol yn cadw'r cyfrifoldeb sydd ynghlwm wrth fod yn gyflogwr, roedd wedi dirprwyo'r wahanol dasgau sy'n gysylltiedig â Rheoliadau 2017 i Ddirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd. Mae'r drefn hon yn dderbyniol, ond fel rhan o'n hadolygiad o ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r Rheoliadau, tynnwyd sylw at y ffaith bod yna nifer o anghysondebau mewn perthynas â'r trefniadau a ddisgrifiwyd. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn gyson.

Ar y cyfan, gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig clir wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn unol â Rheoliadau 2017.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad fod fersiynau cyfredol o'r polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gael iddynt. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff fod staff yr adran yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i ddogfennau, a'u bod yn gofyn iddynt gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y newidiadau perthnasol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â Rheoliadau 2017 yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith gan y cyflogwr fel rhan o'r bwrdd iechyd.

### *Cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol yn yr adran ac ymchwilio iddynt.

Roedd gweithdrefn y cyflogwr yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn os byddent yn amau bod cysylltiad damweiniol neu anfwriadol, neu gysylltiad a fu bron â digwydd, wedi digwydd. Roedd y weithdrefn yn rhoi gwybodaeth i'r staff am y broses i'w dilyn ac, o ganlyniad, roedd AGIC yn cael gwybod am ddigwyddiadau o'r fath mewn modd amserol lle y bo angen. Tynnwyd sylw at rai meysydd yn y weithdrefn, lle y dylai'r cyflogwr ystyried ychwanegu gwybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn glir. Roedd y rhain yn cynnwys y gofynion o dan ganllawiau Cysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol Sylweddol (SAUE) i gynnal dadansoddiad o wraidd y broblem lle y bo angen, a hefyd i unrhyw adroddiadau nodi'n glir a roddwyd unrhyw weithdrefnau lleol ar waith.

Yn ystod trafodaethau â'r uwch-aelodau o'r staff, awgrymwyd hefyd fod angen cynnwys mwy o fanylion yn y weithdrefn mewn perthynas â chofnodi'r penderfyniad i roi gwybod i'r claf am gysylltiad neu beidio. Ar hyn o bryd, os penderfynir bod y cysylltiad o dan y trothwy clinigol, ni fyddai'r claf yn cael gwybod. Dylai'r cyflogwr ystyried diweddarau'r dogfennau perthnasol i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r wybodaeth y mae angen ei chofnodi fel mater o drefn.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Yn ystod trafodaethau â'r uwch-aelodau o'r staff, cawsom wybod bod angen mwy o staff yn yr adran, gan fod nifer o swyddi gwag ar hyn o bryd a bod y galw yn cynyddu. Roedd hyn yn golygu bod yr adran yn dibynnu ar staff yn gweithio goramser i sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd.

Dywedwyd wrthym fod gwaith dadansoddi'r gweithlu yn mynd rhagddo i bennu faint o staff sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y gwasanaeth. Roeddent hefyd yn ystyried darparu mwy o sesiynau ar gyfer cleifion, a allai olygu bod y diwrnod gwaith yn hirach.

Lleisiwyd pryderon ychwanegol gan yr uwch-reolwyr mewn perthynas â chymorth nyrsio yn yr adran, a oedd yn gyfyngedig. Cawsom wybod bod y problemau hyn wedi codi o ganlyniad i newidiadau i ffiniau'r bwrdd iechyd, a arweiniodd at rai aelodau o'r staff yn cael eu symud i BIP Cwm Taf Morgannwg.

Roedd y swyddi gwag yn cynnwys pedair swydd radiolegwr. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr adran wedi cael ceisiadau am y swyddi hyn ac wedi trefnu cyfweiliadau.

Roedd yr aelodau o staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y lefelau staffio yn ddiogel, a chawsom wybod bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau. Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr, a dywedwyd wrthym fod yr uwch-reolwyr yn hawdd iawn mynd atynt.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant ar gyfer 'ymarferwyr' a 'gweithredwyr' a oedd yn gweithio yn yr adran. Roedd y rhain yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol a bod eu cymhwysedd wedi cael ei asesu mewn perthynas â chynnal cysylltiadau ac archwiliadau. Roedd y cofnodion hyn hefyd yn nodi cwmpas ymarfer pob unigolyn yn glir.

Cadarnhaodd staff yr adran fod hyfforddiant ar gael iddynt, a'u bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch-aelodau o'r staff i ddiwallu eu hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod hefyd yn ymwybodol o sut i gael gafeael ar unrhyw gefnogaeth ychwanegol drwy Iechyd Galwedigaethol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach



- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd (2018).

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig â chysylltiad yn cael ei asesu yn erbyn y budd clinigol.
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio. Mae gwasanaethau'n cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch-swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ìoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith fel rhan o'r arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

**Ward/adran:** Yr Adran Radioleg

**Dyddiad arolygu:** 21 a 22 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni roddwyd unrhyw sicrwydd uniongyrchol fel rhan o'r arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Ysbyty:** Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

**Ward/adran:** Yr Adran Radioleg

**Dyddiad arolygu:** 21 a 22 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod mwy o wybodaeth yn darparu cyngor ar iechyd a llesiant cyffredinol ar gael i gleifion yn yr adran.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	<ul style="list-style-type: none"><li>Mae taflenni a phosteri wedi cael eu harddangos drwy'r adran ers yr arolygiad. (Rhoi'r gorau i smygu, Llesiant meddwl ac ati)</li><li>Ymgysylltu â chydweithwyr iechyd y Cyhoedd i gael mwy o ddeunyddiau am hybu iechyd i'w harddangos yn yr adran</li><li>Datblygu atebion electronig gyda chydweithwyr ym maes TG ac yn y bwrdd iechyd ehangach. E.e. Teledu sy'n darparu gwybodaeth</li></ul>	Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot  Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot  Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot	Wedi'i gwblhau  Medi 2020  Hydref 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		barhaus am lechyd y Cyhoedd. Cynnydd i gael ei adolygu'n fisol yng nghyfarfodydd Bwrdd y Gyfarwyddiaeth.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fel mater o drefn, sy'n eu cynghori ynglŷn â phwy y dylent gysylltu â nhw os byddant yn cael unrhyw broblemau yn dilyn eu harchwiliad / triniaeth.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Prosiect yn dechrau ym mis Mehefin 2020 i adolygu a diwygio taflenni gwybodaeth i gleifion a gohebiaeth a anfonir gan Systemau Trefnu Apwyntiadau Gwasanaethau Radioleg. Bydd hyn yn cynnwys arweiniad ar sut i gysylltu â'r adran i drafod unrhyw bryderon neu ymholiadau mewn perthynas â gofal.</li> <li>• Mae'r Gwasanaeth Radioleg yn datblygu tudalen we i'w hychwanegu at Wefan y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn cynnwys yr holl fanylion cyswllt ar gyfer lleisio pryderon a gwneud ymholiadau, yn ogystal â chyfeirio cleifion at lwybr cwynion y Bwrdd Iechyd</li> <li>• Datblygu ateb electronig ar gyfer</li> </ul>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot / Gweinyddwyr Radioleg a Rheolwyr Systemau Gwybodaeth Radioleg (RIS).</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot /</p> <p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port</p>	<p>Awst 2020</p> <p>Ionawr 2021</p> <p>Hydref 2021</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>rhannu gwybodaeth y gwasanaeth, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am gwynion a phryderon. Cynnydd i gael ei adolygu'n fisol yng nghyfarfodydd Bwrdd y Gyfarwyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff mwy o bosteri 'Gweithio i Wella' Llywodraeth Cymru eu harddangos drwy'r adran i sicrhau eu bod yn fwy gweladwy</li> </ul>	<p>Talbot</p> <p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p>	<p>Gorffennaf 2021</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i dynnu sylw at y ffaith bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn yr adran, er mwyn helpu i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.</p>	<p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodir bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol wrth hysbysebu pob swydd Radioleg eisoes, a bydd hyn yn parhau.</li> <li>• Mae'r hysbyseb yn nodi bod croeso i siaradwyr Cymraeg a/neu Saesneg wneud cais am swyddi Radioleg, a bydd hyn yn parhau.</li> <li>• Mae poster sy'n nodi bod siaradwyr Cymraeg ar gael wedi'u harddangos yn yr adran.</li> </ul>	<p>Bwrdd iechyd / Gwasanaethau Radioleg</p> <p>Bwrdd iechyd / Gwasanaethau Radioleg</p> <p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p>	<p>Cwblhawyd ac yn parhau</p> <p>Cwblhawyd ac yn parhau</p> <p>Awst 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg yn yr adran ei hychwanegu at y dudalen we sydd ar ddod.</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot	Ionawr 2021
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r prosiect i adolygu a diwygio gwybodaeth i gleifion a gohebiaeth sy'n dechrau ym mis Mehefin 2020 yn cynnwys cam i sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ddiweddaraf ei chyfieithu a'i bod ar gael i'r cleifion yn Gymraeg.</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot / Gweinyddwyr Radioleg a Rheolwyr Systemau Gwybodaeth Radioleg (RIS)	Ionawr 2021
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar hyn o bryd mae'r bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer unrhyw glaf y mae angen y cymorth hwn arno os na fydd siaradwyr Cymraeg ar gael, e.e. y Llinell Iaith.</li> </ul>	Bwrdd iechyd / Gwasanaethau Radioleg	Cwblhawyd ac yn parhau
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff matrices o Siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o'r</li> </ul>	Arolygydd Safle Castell-nedd Port	Awst 2020



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gwasanaeth ei ddatblygu, a fydd yn cynnwys pob grŵp staff, er mwyn cefnogi'r Cynnig Rhagweithiol o ddydd i ddydd.	Talbot	
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i hysbysu'r cleifion sy'n ymweld â'r adran am amseroedd aros presennol mewn ffordd well.	5.1 Mynediad amserol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y cam a nodwyd uchod ar gyfer hybu iechyd y Cyhoedd drwy deledu/ateb electronig yn cynnig cyfle i arddangos amseroedd aros presennol. Yn y cyfamser, defnyddir byrddau gwyn i arddangos gwybodaeth y gwasanaeth.</li> <li>• Mae'r prosiect i adolygu a diwygio gwybodaeth i gleifion a gohebiaeth sy'n dechrau ym mis Mehefin 2020 yn cynnwys cam i adolygu cyfleoedd i roi gwybod am amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau unigol</li> <li>• Pan fydd tudalen we bwrpasol ar gyfer yr adran Radioleg ar gael,</li> </ul>	<p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot / Gweinyddwyr Radioleg a Rheolwyr Systemau Gwybodaeth Radioleg (RIS)</p> <p>Rheolwr</p>	<p>Hydref 2020</p> <p>Ionawr 2021</p> <p>Ionawr 2021</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bydd modd arddangos yr amseroedd aros at ddefnydd y cleifion yn barhaus	Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot	
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gwbl ymwybodol o'u hawl i godi pryderon am eu gofal neu driniaeth yn y GIG.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fel y nodwyd uchod o dan gamau pwynt 2 - 4.2 Gwybodaeth i gleifion.</li> <li>Mae'r gwasanaeth yn bwriadu arddangos ei wybodaeth am ansawdd a llywodraethu yn yr adran, gan gynnwys gwybodaeth am sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i themâu a godwyd drwy adborth a/neu gwynion y cleifion. E.e. 'Dywedoch chi, gwnaethom ni..'</li> </ul>	<p>Fel y camau ym mhwynt 2</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p>	<p>Fel y camau ym mhwynt 2</p> <p>Awst 2020</p>
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau y caiff atgyfeiriadau ar gyfer achosion theatr mae angen delweddu	Rheoliad 6 (2) Rheoliad 10 (5)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aed â hyn i'r Pwyllgor Cysylltiad Meddygol i'w drafod. Cytunwyd i drefnu cyfarfod â'r Cyfarwyddwr</li> </ul>	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	Gorffennaf 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>fflworosgopeg symudol arnynt eu cwblhau cyn i'r claf ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio yn unol â Rheoliadau 2017.</p>		<p>Gwasanaethau ar gyfer Theatrau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Meincnodi gweithdrefnau byrddau iechyd eraill ar gyfer rheoli'r maes hwn.</li> <li>• Datblygu cynllun i roi'r broses gywir ar waith a chytuno ar atebolrwydd ar gyfer monitro a chydymffurfio</li> <li>• Cynnal archwiliad o gydymffurfiaeth bob chwarter fel rhan o'r calendr archwilio presennol.</li> <li>• Codi'r mater o ddiffyg cydymffurfio â'r Cyfarwyddwyr Meddygol er mwyn sicrhau bod y Tîmau Meddygol sy'n gweithio mewn Theatrau ac Anestheteg yn cael gwybodaeth am y gofynion o ran cydymffurfio.</li> <li>• Diweddarau Gweithdrefn y Cyflogwr – adran EP 5 – i adlewyrchu'r lefel cydymffurfio</li> </ul>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Radioleg</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Theatr / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Cyfarwyddwr Clinigol yr Adran Radioleg</p> <p>Cynghorydd Ffiseg Feddygol BIPBA</p>	<p>Awst 2020</p> <p>Medi 2020</p> <p>Ionawr 2021</p> <p>Gorffennaf 2020</p> <p>Gorffennaf 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth sy'n ofynnol	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod pob cysylltiad meddygol ac anfeddygol wedi'i gyfiawnhau ac y gellir nodi'r ymarferydd unigol sy'n cyfiawnhau pob cysylltiad.</p>	<p>Rheoliad 11 (1) (b) Rheoliad 11 (2) (ad)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio cydymffurfiaeth gan Radiograffwyr a Radiolegwyr wrth gwblhau'r adran gywir o'r ffurflen gwneud cais mewn perthynas â Chyfiawnhad yn unol â'r Rheoliadau drwy ei llofnodi.</li> <li>• Canlyniadau'r archwiliadau i gael eu trafod yn y cyfarfod Llywodraethu Clinigol</li> <li>• Canlyniadau'r archwiliadau i gael eu hadolygu yng nghyfarfod Addysg ac Archwilio Amlddisgyblaethol yr Adran Radioleg</li> <li>• Cyfarwyddwr Clinigol yr Adran Radioleg i rannu Adroddiad yr Arolygiad o dan Rheoliadau 2017 a chyfleu'r angen i gydymffurfio yng nghyfarfod y Gyfarwyddiaeth.</li> </ul>	<p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol yr Adran Radioleg</p>	<p>Gorffennaf 2020</p> <p>Awst 2020</p> <p>Awst 2020</p> <p>Gorffennaf 2020</p>
<p>Rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod y staff yn</p>	<p>Rheoliad 10 (4)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhawyd yr archwiliad ar gyfer Theatrau ym mis Chwefror 2020.</li> </ul>	<p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port</p>	<p>Cwblhawyd 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cofnodi maint dosau'r cleifion yn RadIS yn unol â gweithdrefn y cyflogwr sydd ar waith.	Atodlen 2 (j)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd yr amserlen archwilio yn parhau i fynd rhagddi er mwyn cynnwys pob rhan o'r gwasanaeth nad oes ganddi gofnod o ddosau ei hun.</li> <li>• Canlyniadau archwiliadau i gael eu trafod yng nghyfarfodydd Diogelu rhag Ymbelydredd a Chysylltiadau Meddygol yn barhaus.</li> <li>• Adroddiad yr Arolygiad o dan Reoliadau 2017 i gael ei rannu ag arolygwyr safleoedd, a'r angen i gydymffurfio â gweithdrefn y cyflogwr o ran Dosau RADIS i gael ei drafod yn y Cyfarfod Llywodraethu Clinigol</li> </ul>	<p>Talbot</p> <p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot</p>	<p>Yn parhau – mae'r pecyn pelydr-x symudol i fod cyrraedd ym mis Gorffennaf 2020</p> <p>Cwblhawyd ac yn parhau</p> <p>Gorffennaf 2020</p>
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Rhaid i'r cyflogwr ddarparu manylion i AGIC am	Rheoliad 6(1)	Mae'r bwrdd iechyd wedi gofyn am fwy o eglurder ar y gofynion o ran cydymffurfio	Dirprwy Gyfarwyddwr	Mehfin 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
y camau a gymerir i sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â Rheoliadau 2017 yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith gan y cyflogwr fel rhan o'r bwrdd iechyd.	Rheoliad 6 (5) (b) Atodlen 2 (d) Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>â'r pwynt hwn gan AGIC, ac wedi nodi'r camau y mae angen eu cymryd ers hynny.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r camau a nodwyd i ddiweddarau polisi BIPBA ar roi Rheoliadau 2017 ar waith wedi cael eu cwblhau.</li> <li>Caiff y polisi ei adolygu a'i drafod ochr yn ochr ag Adroddiad yr Arolygiad o dan Reoliadau 2017 a'r Cynllun Gwella yng nghyfarfod Llywodraethu Clinigol nesaf yr Adran Radioleg; Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd a Phwyllgor Cysylltiad Meddygol.</li> </ul>	Therapiau BIPBA  Cynghorydd Ffiseg Feddygol BIPBA  Dirprwy Gyfarwyddwr Therapiau / Rheolwr Gwasanaethau Radioleg / Arolygydd Safle Castell-nedd Port Talbot	Gorffennaf 2020   Awst 2020 – Llywodraethu Radioleg a Rhagfyr 2020 – Diogelu rhag Ymbelydredd a Chysylltiad Meddygol

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Alexandra Simmonds / Janine Sparkes**

**Swydd:** Rheolwr Gwasanaethau Radioleg - BIP Bae Abertawe / Arolygydd  
Safle Castell-nedd Port Talbot

**Dyddiad:** 26/06/2020